**Bitesize**

# Ysgrifennu cyfarwyddiadol

| | |
|---|---|
| **MIRIAM** | Ma'n rhaid i mi ffeindio swydd arall. Un sy'n talu'n well. |
| **CATH** | Snap! 'Dan ni i gyd. |
| **JAC** | Wel, allen ni chwilio am swyddi ychwanegol gyda'r nos, neu ar benwythnos. |
| **CATH** | Ond pryd fyddwn ni'n ymlacio?! |
| **MIRIAM** | Gei di ymlacio pan ti'n ymddeol! |
| **JAC** | Grêt! Pryd fydd hynny? |
| **MIRIAM** | Pan ti di tua … 95! |
| **CATH** | Angen rhywun i fynd â'r ci am dro? Pamela ydw i, dwi'n caru cŵn ac wedi gofalu am gŵn ers 15 mlynedd. Dwi'n ddibynadwy iawn ac mi wna i ofalu am eich babi chi fel un o fy mabis blewog fy hun!<br><br>Ylwch! Cynnig i fynd â dy gi di am dro! |
| **MIRIAM** | Ond does gen ti ddim ci. |
| **CATH** | Dyyh! Nac oes. Ond sbïa faint mae'n godi ar bobl sgen gŵn. |
| **MIRIAM** | Dau gi: naw punt am hanner awr, £13 am awr. |
| **JAC** | Gallwn ni i gyd fynd â chŵn am dro! |
| **CATH** | Ond sut fedrwn ni gystadlu efo pobl fel hon? |
| **JAC** | Ie, a'r holl rai sydd ar y we hefyd. Mae llwyth ohonyn nhw. |
| **MIRIAM** | Drwy fod yn wahanol – yn hytrach na mynd â chŵn yn unig am dro, mi allwn ni  fynd ag unrhyw anifail, o unrhyw faint! |
| **CATH** | Ylwch, mi fedrwn ni'n tri wneud taflen llawn cystal â hon – hyd yn oed gwell, a deud y gwir! Oes gan rywun lun ciwt o anifail? |
| JAC | Y geiriau sy'n bwysig yn fy marn i, Cath. Drycha ar y daflen 'ma. Mae hi wedi defnyddio geiriau perswadiol fel 'caru', 'gofalu' a 'dibynadwy'. |
| MIRIAM | A: 'Mi wna i ofalu am eich babi chi fel un o fy mabis blewog fy hun!' Babi blewog?! Mae hi'n anelu at bobl sy'n caru eu cŵn gymaint, maen nhw'n eu trin nhw fel un o'u plant. |


© Copyright 2015

| | |
|---|---|
| **CATH** | Ti'n iawn. Mae'n rhaid i ni ystyried at bwy 'dan ni'n anelu – pobl sy'n teimlo'n euog am orfod mynd allan i'r gwaith a gadael eu hanifeiliaid ar ôl. Fatha'r llun yma! Llygaid mawr, trist… llygaid i dorri calon, bechod. |
| **JAC** | Drwy ddefnyddio llun o anifail trist, mae hwn yn apelio at emosiwn y darllenwr. |
| **CATH** | O! |
| **JAC** | Ac mae'n defnyddio cwestiynau rhethregol. |
| **CATH** | Y? Be?! |
| **MIRIAM** | Cwestiynau rhethregol. Gofyn cwestiwn heb ddisgwyl ateb, fel: 'Wnei di neud paned i mi plis, Cath? Diolch!'<br><br>Jôc, Cath! Cwestiwn rhethregol oedd hwnna. Mae cwestiynau rhethregol yn anelu at y galon a'r gydwybod. Cwestiynau fel: 'Ydych chi'n teimlo'n euog eich bod yn methu mynd â'r ci am dro?' 'Ydych chi'n poeni nad ydy'ch ci chi'n cael yr ymarfer corff mae o'i angen?' Mae'n effeithiol, dydy? |
| **JAC** | Dw i'n teimlo bod angen rhywbeth mwy trawiadol yn bennawd. |
| **MIRIAM** | Ia, a rhywbeth llai negatif. Gosodiad positif! Be am … 'Dim mwy o deimlo'n euog!'? |
| **CATH** | Geiriau perswadiol sy'n bositif! ''Dan ni yma i wneud eich bywyd chi'n haws. Gadewch i ni fynd â'ch ci chi am dro.' |
| **MIRIAM** | Da! A beth am ychwanegu: 'Neu unrhyw anifail anwes. Mi allwn ni ddelio hefo unrhyw beth'!? |
| **JAC** | 'Rydyn ni'n caru anifeiliaid o bob math! Rydyn ni'n ofalus a dibynadwy bob amser.' |
| **MIRIAM** | 'Ac yn ifanc a heini ac yn fodlon mynd allan mewn unrhyw dywydd.' Ma 'na ddigon o eiriau positif yn fan 'na! |
| **CATH** | Faint wnawn ni godi? |
| **JAC** | Ym ... Saith bunt am hanner awr a degpunt am awr. Nawr, mae angen cyfarwyddiadau: 'Cysylltwch drwy e-bostio cathjacamims@cerdded.cymru neu ffoniwch ni.' |
| **MIRIAM** | Hudol o berswadiol – a rhesymol! |


© Copyright 2015

| | |
|---|---|
| **JAC** | Barod! |
| | Wna i roi hwn fan hyn. Ac fe rown ni fersiwn ddigidol o'r poster ar ein gwefannau personol. |
| **CEFNDIR** | CLOCH Y DRWS |
| **CATH** | Oooo! |
| **JAC** | Pysgodyn? |
| **MIRIAM** | Pwy sy'n mynd i fynd â hwn am dro? |
| **CATH** | Ti ddwedodd 'unrhyw anifail, unrhyw faint!' |
| **MIRIAM** | Ty'd mlaen 'ta, Safnau. |
| **CATH** | 'Safnau'? |
| **MIRIAM** | Jaws … Ta-ra. |


© Copyright 2015